# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*


Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Donna Watts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Ngorffwysfan
**Nos Fercher 12 Rhagfyr 2018**

**PRESENNOL:**
**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Walter Williams
Y Cynghorydd Mary Jones
Y Cynghorydd Griff Morris
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Einir Williams

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Ann Williams
Y Cynghorydd Linda Brown

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Godfrey Northam

**Cyngor Gwynedd**
Y Cynghorydd Paul Rowlinson

1. **Croesawyd** pawb i'r Cyfarfod gan y Cyng. Einir Williams.
   **Ymddiheuriadau** gan y Cyngr. Rheinallt Puw, Dyfrig Jones, Gwilym Owen, Bleddyn Williams a Susan Davies.

**2. Datgan Diddordeb**
Eitem 6, Partneriaeth Ogwen: Y Cyngr. Griff Morris a Neville Hughes

**3. Materion Brys**
**3.1 Cyngerdd Gŵyl Dewi** – trafodwyd bydd angen i'r Is-bwyllgor gyfarfod ym mis Ionawr i drafod y cyngerdd. Penderfynwyd holi os yw Neuadd Ogwen yn rhydd nos Wener 1af o Fawrth. Bydd angen trefnu'r gystadleuaeth addurno ffenestri siop hefyd.
**3.2 PCSO Ashley –** yn awyddus dod i gyfarfod y Cyngor. Y Clerc i drefnu dyddiad.
**3.3 Archeb 2019-20** - Y Clerc yn awyddus i ail-drefnu cyfarfod mis Ionawr , a'i gynnal nos Iau 24 Ionawr, er mwyn ymateb i Gyngor Gwynedd mewn pryd. Pawb yn cytuno.

**4. Cofnodion**
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2018.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**
**5.1 Cloc Gorffwysfan**- y cloc wedi ei archebu
**5.2 Gordyfiant ar y ffordd rhwng yr Hen Iard Glo a groeslon Gerlan**-y wal heb gael sylw, y Clerc am ddod a'r mater i sylw Gyngor Gwynedd unwaith eto. Cyngor Gwynedd yn trafod gyda'r tirfeddianwyr am y gordyfiant.
**5.3 Clwb Ieuenctid –** adroddwyd bod cyfweliadau wedi digwydd ar ddechrau'r wythnos ac bod 2 swyddog wedi eu apwyntio ar gyfer y clwb ieuenctid. Adroddwyd bod y gwasanaeth newydd-wedd y Gwasanaeth Ieuenctid yn digwydd ar nosweithiau Mawrth a Iau. Y Clerc i holi am wybodaeth pellach.

**5.4 Caeau chwarae** – penderfynwyd peidio cael dyfynbris am rwydi ar gyfer y goliau. Y cam cyntaf fydd holi'r Cyng. Rheinallt Puw os yw Cyngor Gwynedd yn fodlon i'r Cyngor Cymuned fod yn gwneud y gwaith arfaethedig i'r caeau pêl-droed. Wedyn bydd angen prisiau ar gyfer y toriadau ychwanegol a cael marcio'r caeau.
**5.5 Gwasanaeth Sul y Cofio** – trafodwyd y buasai'r aelodau yn hoff o drafod cynnwys y gwasanaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf. Y Parch. John Matthews wrth ei fodd bod y Cyngor eisiau trafod y gwasanaeth. Y Clerc i drefnu cyfarfod yn y Gwanwyn. Penodwyd y Cyngr. Griff Morris, Linda Brown a Susan Davies (i'w gadarnhau) i fynychu'r cyfarfod.
**5.6 Arriva a problemau parcio Gerlan** – y Cyng. Linda Brown yn bryderus am y gwasanaeth yn Gerlan. Y Cyng. Paul Rowlinson wedi cyfarfod gyda Cyngor Gwynedd ar y safle i drafod ymestyn y llinellau melyn (dim ond dipyn bach). Ymateb wedi dod gan Arriva eu bod yn defnyddio y bws lleiaf sydd ganddynt yn barod.

**6. Adroddiad Partneriaeth Ogwen**
Pawb wedi cael adroddiad ysgrifenedig gyda diweddariad ar holl waith/brosiectau'r Bartneriaeth. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a diolch i'r tîm am waith ardderchog.

**7. Adroddiad Pwyllgor Cyllid**
Roedd pawb wedi derbyn copi o adroddiad ariannol, yn cynnwys archeb wedi ei ddrafftio gan yr Is-bwyllgor Cyllid ar gyfer 2019-20. Trafodwyd pob eitem yn unigol. Penderfynwyd bod pawb yn hapus gyda'r Archeb Ddrafft, ond bod angen symud rhywfaint o'r arian wrth gefn i wahanol benawdau. Diolchwyd i'r Cyng. Neville Hughes am yr adroddiad.

**8. Adroddiadau gan Gynrychiolwyr**
**Partneriaeth Ogwen** – adroddwyd bod Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y bartneriaeth wedi ei gynnal 6ed Rhagfyr 2018. Y Cyng. Dyfrig Jones wedi cynnig ei enw ar gyfer Bwrdd Rheoli'r Bartneriaeth. Bydd rhaid trafod hyn yn cyfarfod blynyddol y Cyngor yn mis Mai.

**9. Maes Parcio Gerlan**
Pawb wedi derbyn copi o diweddariad ysgrifenedig. Y Cyngor yn cefnogi'r cynllun ac yn unfrydol am symud ymlaen gyda'r maes parcio.

**10. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi cael copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Rhagfyr 2018'
**10.1** Llythyr gan Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon-cais am lythyr o gefnogaeth i'w gwahoddiad i'r Eisteddfod Genedlaethol gael ei gynnal yng Nghaernarfon 2021. Y Cyngor yn hapus i gefnogi.
**10.2** E-bost gan Gyngor Gwynedd ynglŷn a'r Cynllun Partneriaethu Toiledau Cyhoeddus – holi os yw'r Cyngor yn fodlon cytundebu ar gyfer y ddwy flynedd (2019-20 a 2020-21) er mwyn cael sefydlogrwydd a threfniadau effeithlon. Penderfynwyd bod y Cyngor yn fodlon bod yn rhan o'r trefniant hyn.
**10.3** E-bost gan Cylch yr Iaith ynglŷn a ail-strwythuro Canolfannau Iaith Gwynedd – ymgynghoriad ar hyn o bryd gan Gwasanaethau Addysg Cyngor Gwynedd. Penderfynwyd bod y Cyngor yn gefnogol o gynnwys y ddogfen a'r argymhellion ac am anfon llythyr at Garem Jackson, gyda chopiau at Cyng. Gareth Thomas a Cyng. Dyfrig Siencyn, ac hefyd at Swyddogion Llywodraeth Cymru-Mark Drakeford, Kirsty Williams a Luned Morgan.
**10.4** E-bost gan Cyngor Gwynedd ynglŷn a ymgynghoriad ar Polisi Gosod tai Cyffredin Gwynedd – penderfynwyd bydd yr aelodau yn ymtaeb fel uniogolion.

**11. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio**

**<u>Penderfyniadau</u>**

**C18/0999/13/LL**

| | |
|---|---|
| 11 Rhes Ogwen, Bethesda | Cais ôl-weithredol ar gyfer newid defnydd llawr gwaelod eiddo o siop (A1) i annedd (C3)<br>**Penderfyniad:** Holl ymgynghoriadau drosodd |

**NP3/21/9C**

| | |
|---|---|
| 8 Ciltwllan, Gerlan, Bethesda | Tynnu dormer blaen presennol ac estyniad dormer cefn a dymchwel estyniad ochr, codi dormer newydd i'r edrychiad de, codi estyniad unllawr i'r ochr a chodi garej.<br>**Penderfyniad:** Dim penderfyniad hyd yn hyn |

**<u>Ceisiadau</u>**

**C18/1063/13/LL**

| | |
|---|---|
| 7 Ffordd y Mynydd, Rachub | Estyniad yn y cefn ar ffurf ffenestr dormer<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad |

**C18/1057/13/LL**

| | |
|---|---|
| Tŷ Dŵr Bach, Gerlan | Newid defnydd adeilad gwaith trin Dŵr Cymru gwag yn fwthyn gwyliau<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad |

**C18/1023/13/LL**

| | |
|---|---|
| Tyddyn Caseg, Bethesda | Estyniad cefn<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad |

**12. Taliadau**

<u>Awdurdodwyd y canlynol</u>

| | |
|---|---|
| Cyflogau (Rhagfyr) | £311.50 |
| CThEM (Rhagfyr) | £77.80 |
| Londis-papurau (Tachwedd) | £31.90 |
| Partneriaeth Ogwen-halen | £223.08 |
| Tom Parry & Co | £420.00 |